

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Adolygiad Tair Blynedd - Cynyddu'r cynnig o ran darparu ymgynghoriadau clinigol yn y Gymraeg

Yn 2020, cyhoeddodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, yn unol â gofynion safon 110 Safonau'r Gymraeg, ei gynllun pum mlynedd i "gynyddu'r cynnig o ran darparu ymgynghoriadau clinigol yn y Gymraeg".

Er mwyn mesur cynnydd a chyrhaeddiad yn erbyn y targed hwn, nododd y Bwrdd Iechyd nifer o ganlyniadau y byddent yn anelu at eu cyflawni. Mae'r adroddiad hwn yn manylu ar ein cynnydd presennol yn erbyn y canlyniadau hyn.

Mae'n bwysig nodi bod y tair blynedd yr adroddir arnynt yma yn cyd-fynd â phandemig Covid-19. Covid-19 oedd yr her fwyaf i'r gwasanaeth iechyd ei wynebu ar lefel genedlaethol ac fe greodd heriau a phwysau sylweddol ar bob agwedd ar y gwasanaeth.

Canlyniad 1 - Sefydlu gwaelodlin glir o sgiliau iaith Gymraeg y staff.

- **Mesur 1:** Cyfradd cydymffurfio ar gyfer cwblhau cymwyseddau Cymraeg unigol ar ESR
 - Mae'r ffigur hwn wedi cynyddu o 33% i 74% yn ystod y cyfnod adrodd. Mae gofyniad gorfodol bellach i fewnbynnu'r data hwn, Dyma'r ffordd orau o sicrhau cydymffurfiaeth. Mae system syml wedi ei sefydlu gan Uned y Gymraeg er mwyn cynorthwyo'r rhai sy'n cael trafferth mewnbynnu eu data. Yn ystod yr wythnos gyntaf cyflwynodd 130 o unigolion geisiadau a hyd yma mae dros 1,000 o staff wedi llenwi'r holiadur.
- **Mesur 2:** Manteisio ar Gynnig Hyfforddiant y Gymraeg
 - Mae'r cynnig hyfforddiant yn cael ei rannu'n rheolaidd gyda holl staff y Bwrdd Iechyd. Mae cyfathrebiadau rheolaidd hefyd gyda staff er mwyn sicrhau bod llawer o ymwybyddiaeth. Yn sgil Covid, roedd angen addasu'r ffyrdd o ddysgu ac roedd y pwysau ar staff o ran llwyth gwaith cynyddol yn ei gwneud hi'n anoddach i ryddhau staff. Datblygwyd cyrsiau ar-lein gan ddarparwyr dysgu ac mae cyrsiau Cymraeg mewnol wedi'u datblygu er mwyn sicrhau fod y cynnig yn parhau gyda hyblygrwydd. Cwblhawyd 388 o'r modiwlau hyfforddiant wedi'u teilwra a ddarparwyd ar-lein gan Dysgu Cymraeg ac mae 600 arall wrthi'n cael eu cwblhau. Mae Uned y Gymraeg yn parhau i chwilio am

fecanweithiau dysgu ychwanegol er mwyn sicrhau ein bod yn diwallu anghenion dysgu ein staff. Rydym wedi ychwanegu'r platfform dysgu 'Say something in Welsh' ac wedi sicrhau bod hwn ar gael i staff. Drwy ddarparu amrywiaeth o ddulliau ac arddulliau dysgu ein nod yw sicrhau bod rhywbeth at ddant pawb.

Canlyniad 2 - Bydd camau a gymerir gan Is-adrannau a staff yn golygu bod y Bwrdd Iechyd yn darparu 'Cynnig Gweithredol' o ran y Gymraeg i ddefnyddwyr gwasanaeth fel mater o drefn a gwneir pob ymdrech i sicrhau bod gwasanaethau'n gwybod beth yw dewis

- **Mesur 3:** Nifer y posteri cynnig gweithredol sy'n cael eu harddangos gan is-adrannau.
 - Mae pob adran wedi derbyn posteri cynnig gweithredol i'w harddangos. Mae animeiddiad sy'n dangos pwysigrwydd ac effaith y 'Cynnig Gweithredol' wedi'i greu a bydd yn cael ei rannu gyda'r holl staff ar y fewnrwyd erbyn mis Medi 2022. Mae amserlen flynyddol yn ei lle ar gyfer ymweliadau i safleoedd y Bwrdd Iechyd gan siopwyr dirgel. Os oes problemau wedi dod i'r amlwg, mae mesurau cywiro yn cael eu rhoi ar waith. Bu'n rhaid torri nol ar yr ymweliadau rhain yn ystod pandemig Covid ond yn 2021 fe'u hailgychwynwyd. Wrth ymweld â'n safleoedd mwy yn Nevill Hall, Y Faenor ac Ysbyty Brenhinol Gwent, gwelwyd fod posteri'r 'Cynnig Gweithredol' yn cael eu harddangos ym mhob un ohonynt. Wrth edrych ar wardiau penodol, roedd posteri'n cael eu harddangos yn 75% ohonynt. Nid oedd modd ymweld â phob ward gan fod rhai wardiau wedi'u dynodi fel parthau 'Coch ac Amber'. Bydd archwiliad siopwyr dirgel yn cael ei gynnal yn 2023 a bydd amserlen ar gyfer gwiriadau rheolaidd dilynol yn cael ei gosod hefyd.
- **Mesur 4:** Nifer y staff sy'n ymgymryd â hyfforddiant Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg.
 - Mae ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg wedi cael ei gynnwys fel rhan o broses anwytho holl staff. Mae cyrsiau mewnol ar ymwybyddiaeth o'r Gymraeg wedi cael eu sefydlu ac mae gwybodaeth amdanynt wedi cael ei rhannu gyda'r holl staff presennol. Rydym wedi ymgymryd â 4 cwrs gwahanol sy'n targedu grwpiau penodol sy'n delio â chleifion yn uniongyrchol ac rydym wedi cynnal 20 sesiwn ar gyfer dros 150 o staff. Rydym hefyd yn cynnig cwrs ymwybyddiaeth o'r Gymraeg arall sydd wedi ei sefydlu ar lefel genedlaethol. Bydd yn orfodol i holl staff y GIG yng Nghymru fynychu'r cwrs hwn a bydd Uned y Gymraeg yn monitro cydymffurfiaeth.
- **Mesur 5:** Cyfradd atgyfeirio'r gwasanaeth cyfieithu.
 - Mae ein cyfradd cyfieithu ar gyfartaledd wedi bod yn 500 mil o eiriau y flwyddyn yn ystod tair blynedd y cyfnod adrodd. Er mwyn ceisio sicrhau y gall y Bwrdd Iechyd ddiwallu ei anghenion o ran cyfieithu, penodwyd cyfieithydd mewnol. Mae'r adnodd hwn yn gweithio ar brosiectau penodol y gwyddom nad oes cyfieithu effeithiol yn digwydd ar eu cyfer ac mae'n ein galluogi i ymateb yn llawer cyflymach i unrhyw anghenion neu newidiadau.

Canlyniad 3 - Bydd is-adrannau a staff y Bwrdd Iechyd yn cymryd camau er mwyn sicrhau fod mwy o ddefnyddwyr gwasanaeth yn cael cynnig ymgynghoriad clinigol yn y Gymraeg.

- **Mesur 6:** Nifer y defnyddwyr gwasanaeth sy'n gofyn am ymgynghoriadau yn y Gymraeg.
 - O ystyried nifer yr ymgynghoriadau clinigol sy'n cael eu cynnal bob dydd ar draws y Bwrdd Iechyd, mae'n amhosibl gwybod faint o ymgynghoriadau sy'n cael eu cynnal drwy'r Gymraeg. Mae hyn yn aml yn digwydd fel mater o drefn ac nid yw'n cael ei ystyried yn rhywbeth allan o'r cyffredin. Fel rhan o'n hymgyrch i sicrhau bod y cynnig gweithredol yn cael ei hysbysebu a bod staff sydd â sgiliau Cymraeg yn gwisgo'r cordiau a'r bathodynau 'Cymraeg' rydym wedi derbyn adborth gan gleifion a staff nad oeddynt yn ymwybodol bod gan naill a'r llall sgiliau Cymraeg a'u bod bellach yn ymwybodol ac felly'n cyfathrebu yn y Gymraeg.
- **Mesur 7:** Adborth cleifion a gofalwyr
 - Mae ymatebion a gafwyd gan gleifion yn nodi'r effaith gadarnhaol y mae ymgynghoriad yn eu mamiaith yn eu cael ar eu gofal. Dyma enghraifft:

Rydym yn gleifion cofrestredig ym Meddygfa Churchwood ym Mhont-y-pwl, Torfaen fel teulu. Aethom i apwyntiad brys gyda'n mab, (tair oed) ddydd Gwener, ^{22ain} Ebrill. Cawsom ein gweld gan ein meddyg teulu arferol ac mae bob amser yn darparu'r lefel uchaf o ofal inni pan fydd yn ein gweld. Sylwodd y Meddyg fy mod yn siarad Cymraeg gyda fy mhlentyn ac yn syth dechreuodd sgwrsio gydag ef drwy gyfrwng y Gymraeg. Gallwn ddweud bod fy mab yn teimlo'n gartrefol unwaith iddo glywed y meddyg yn siarad yn Gymraeg yn union fel rydyn ni'n ei wneud gartref, ac fel y mae'n ei wneud yn yr Ysgol Feithrin. Yn ystod y dyddiau diwethaf, mae fy mab wedi sôn dro ar ôl tro am y ffaith fod ei feddyg yn gallu 'siarad Cymraeg' yn union fel ef, a sut roedd hyn yn gwneud iddo deimlo'n hapus! Mae wedi arddangos rhywfaint o bryder yn y gorffennol wrth fynychu apwyntiadau meddygol, ond sylwais fod dull erchwyn gwely'r meddyg a'i ymarfer cynhwysol yn y sefyllfa hon a chymaint o sefyllfaoedd yn y gorffennol, wedi datrys hyn ar unwaith. Mae'n hyfryd gwybod ein bod yn ffodus bod gennym nid yn unig Feddyg Teulu uchel ei barch yn ein cymuned leol, ond hefyd un sy'n hyrwyddo'r Gymraeg ac yn cyflwyno'r 'Cynnig Gweithredol' lle bo hynny'n bosibl i deulu dwyieithog fel ni.

Canlyniad 4 — Buddsoddi mewn adnoddau ychwanegol i gynyddu'r cynnig o ran ymgynghoriadau clinigol Cymraeg.

- **Mesur 8:** Nifer y cyfieithwyr a gaffaelwyd sy'n cael eu hychwanegu at y system.

- Rydym wedi caffael cyfieithwyr allanol cadarn i ymgymryd â'r rhan helaethaf o gyfieithiadau'r Bwrdd Iechyd. Mae'r gwasanaeth hwn yn gallu ymgymryd â'r rhan fwyaf o'r gwaith cyfieithu sydd ei angen arnom. Mae cwmni allanol arall yn ymgymryd â'r gwaith na all y prif gontractwyr ei gyflawni. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi recriwtio uwch gyfieithydd mewnol. Mae penodi cyfieithydd mewnol wedi ein galluogi i ymateb yn gynt i unrhyw anghenion cyfieithu brys ac unrhyw gyfieithiad sydd angen ei wneud yn syth ac mae hyn yn sicrhau bod ein systemau yn fwy cadarn.
- **Mesur 2:** Manteisio ar Gynnig Hyfforddiant y Gymraeg
 - Mae'r cynnig hyfforddiant yn cael ei rannu'n rheolaidd gyda holl staff y Bwrdd Iechyd. Mae cyfathrebiadau rheolaidd hefyd gyda staff er mwyn sicrhau bod llawer o ymwybyddiaeth. Yn sgil Covid, roedd angen addasu'r ffyrdd o ddysgu ac roedd y pwysau ar staff o ran llwyth gwaith cynyddol yn ei gwneud hi'n anoddach rhyddhau staff. Datblygwyd cyrsiau ar-lein gan ddarparwyr dysgu ac mae cyrsiau Cymraeg mewnol wedi'u datblygu er mwyn sicrhau fod y cynnig yn parhau gyda hyblygrwydd. Cwblhawyd 388 o'r modiwlau hyfforddiant wedi'u teilwra a ddarparwyd ar-lein gan Dysgu Cymraeg ac mae 600 arall wrthi'n cael eu cwblhau. Mae Uned y Gymraeg yn parhau i chwilio am ddulliau dysgu ychwanegol er mwyn ceisio sicrhau fod y dulliau a gynigir yn gweddu i anghenion dysgu ein staff. Rydym wedi ychwanegu'r platfform dysgu 'Say something in Welsh' ac wedi sicrhau bod hwn ar gael i staff. Drwy ddarparu amrywiaeth o ddulliau ac arddulliau dysgu ein nod yw sicrhau bod rhywbeth at ddant pawb.
- **Mesur 4:** Nifer y staff sy'n ymgymryd â hyfforddiant Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg.
 - Mae ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg wedi cael ei gynnwys fel rhan o broses anwytho holl staff. Mae cyrsiau mewnol ar ymwybyddiaeth o'r Gymraeg wedi cael eu sefydlu ac mae gwybodaeth amdanynt wedi cael ei rhannu gyda'r holl staff presennol. Rydym wedi ymgymryd â 4 cwrs gwahanol sy'n targedu grwpiau penodol sy'n delio â chleifion yn uniongyrchol ac rydym wedi cynnal 20 sesiwn ar gyfer dros 150 o staff. Rydym hefyd yn cynnig cwrs ymwybyddiaeth o'r Gymraeg arall sydd wedi ei sefydlu ar lefel genedlaethol. Bydd yn orfodol i holl staff y GIG yng Nghymru fynychu'r cwrs hwn a bydd Uned y Gymraeg yn monitro cydymffurfiaeth.
- **Mesur 5:** Cyfradd atgyfeirio'r gwasanaeth cyfieithu.
 - Mae ein cyfradd cyfieithu ar gyfartaledd wedi bod yn 500 mil o eiriau y flwyddyn yn ystod tair blynedd y cyfnod adrodd. Er mwyn ceisio sicrhau y gall y Bwrdd Iechyd ddiwallu ei anghenion o ran cyfieithu, penodwyd cyfieithydd mewnol. Mae'r adnodd hwn yn gweithio ar brosiectau penodol ble gwyddom nad oes cyfieithu effeithiol yn digwydd ac mae'n ein galluogi i ymateb yn llawer cyflymach i unrhyw anghenion neu newidiadau.

Fel y nodir uchod, gwelwyd cynnydd yn erbyn pob un o'r canlyniadau a nodir yn y cynllun gweithredu. Mae'n amlwg o'r hyn a nodir bod y mesurau ar gyfer rhai canlyniadau yn haws i'w meintoli nag eraill.

Er bod cyfyngiadau covid yn llacio fwy a mwy, mae'n wir nodi y bydd ei effaith i'w deimlo am amser maith.

Mae gennym nifer o strategaethau ar waith yn y Bwrdd Iechyd er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i wneud cynnydd yn erbyn pob un o'r canlyniadau rhain.

Mae gweithgareddau penodol sy'n cael eu cynnal yn cynnwys ond nid ydynt yn gyfyngedig i:

- Ddatblygiad parhaus adnoddau hyfforddi sy'n paru'r dysgwr gyda'r hyfforddiant/dull dysgu priodol.
- Cynnal archwiliadau yn safleoedd y Bwrdd Iechyd i asesu gwelededd y 'Cynnig Rhagweithiol' a darparu mesurau cywiro a hyfforddiant lle bo hynny'n briodol.
- Cyflwyno gwybodaeth am yrfa yn y Gymraeg yn gynnar, i fyfyrwyr sy'n siarad Cymraeg, waeth beth fo'u gallu, ynghylch pwysigrwydd sgiliau Cymraeg o fewn y Bwrdd Iechyd.
- Mae craffu mwy ar ddata yn dangos ein hymrwymiad i gynyddu nifer y staff a gyflogir sydd â Sgiliau Cymraeg neu sy'n gweithio i ddatblygu'r sgiliau hynny. Mae hyn yn amlwg wrth edrych ar y cynnydd yn y swyddi a hysbysebir gyda'r Gymraeg yn hanfodol (cynnydd yn y ffigur blynyddol o 7 i 30 yn ystod y cyfnod adrodd), a'r Gymraeg yn ddymunol (wedi codi o 2,328 i 3,036 yn ystod yr un cyfnod).
- Archwiliad o gapasiti o ran y Gymraeg ymysg darparwyr Gofal Sylfaenol dan gontract.
- Sicrhau bod data'n cael ei rannu â phartïon perthnasol er mwyn sicrhau bod rheolwyr gweithredol allweddol yn gallu manteisio ar sgiliau Cymraeg staff er mwyn sicrhau bod staffio'n cael ei reoli'n briodol.
- Mwy o gydweithio rhwng sefydliadau Iechyd er mwyn rhannu arferion gorau a dysgu ohonynt.